**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 19eg Rhagfyr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Colin Hanks – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Cyflwyno gwefan newydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i aelodau'r Awdurdod. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi lansio gwefan newydd ar www.gwastan-gogcymru.org.uk. Mae'r wefan sy'n gwbl ddwyieithog yn rhoi dau lwybr i'w dilyn o'r dudalen gartref, sef i'r Awdurdod Tân ac Achub neu i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

1.2 Y nod yw cael gwefan newydd, fodern ac ymarferol y gellir ei diweddaru'n fewnol gan staff y Gwasanaeth. Mae'r dyluniad wedi cael ei greu i fod yn ddifyr, yn lliwgar ac yn ddiddorol, gyda chydbwysedd synhwyrol rhwng testun a lluniau er mwyn esmwytho pethau o ran Technoleg Gwybodaeth gan nad oes band eang gan lawer o ddefnyddiwyr yn ardaloedd mwyaf gwledig y Gogledd.

1.3 Dangosir y wefan newydd i'r aelodau yn ystod cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub.

2. **CEFNDIR**

2.1 Yn Chwefror 2005, comisiynodd y Gwasanaeth adolygiad annibynnol o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Roedd yr archwiliad yn tynnu sylw at y ffaith fod diffyg strwythur yn y wefan, a bod golwg ddigon elfennol arni. Roedd yr archwiliad hefyd yn dweud bod gormodedd o wybodaeth (rhywfaint wedi dyddio), bod y wefan yn methu gwybod pwy oedd y gynulleidfa dan sylw, a'i bod yn anodd ei diweddaru.

2.2 Mae'r wefan newydd wedi ei llunio gyda system rheoli cynnwys y gellir ei defnyddio ar-lein a sy'n hawdd ei diweddaru gan griw craidd o staff sydd â'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair priodol oddi ar unrhyw gyfrifadur sydd â mynediad i'r we. Gyda'r rhannau lle mae angen diweddaru llawer o gynnwys yn rheolaidd (e.e. cyfarfodydd yr Awdurdod, datganiadau i'r wasg, digwyddiadau ayyb), maent mewn adran bwrpasol lle gellir rhoi'r cynnwys i mewn yn gyflym a'i newid yn awtomatig ar y dudalen.

2.3 Gellir newid cynnwys y tudalennau (testun a lluniau) a gellir rhoi dolenni i wefannau eraill, i dudalennau eraill o fewn y wefan, ac i gyfeiriadau e-bost.

2. **CEFNDIR** *(parhad)*

2.4 Gellir rhoi dogfennau (ar unrhyw ffurf megis Word, Excel neu Adobe pdf) ar y wefan, a'u cysylltu ag unrhyw dudalennau fel ei bod yn bosib eu lawrlwytho gan ddefnyddiwyr.

2.5 Mae dwy fersiwn o'r wefan – Cymraeg a Saesneg – gyda 'r posibilrwydd o symud yn hawdd o'r naill i'r llall o unrhyw le ar y wefan. Er cydraddoldeb i'r ddwy iaith, mae'r dudalen gartref yn cynnig y dewis i fynd i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg.

2.6 Mae rhan bwrpasol ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub, a'r templad ychydig yn wahanol er mwyn i'r tudalennau gael eu diwyg eu hunain, er eu bod yn y bôn yn rhan o'r un wefan.

2.7 Mae'r dudalen gartref hefyd yn rhoi cyfle i'r defnyddiwyr fynd yn syth i'r tudalennau hyn (yn Gymraeg neu yn Saesneg) heb orfod mynd trwy dudalennau'r Gwasanaeth yn gyntaf.

3. **COSTAU**

3.1 Talwyd am ddatblygu'r wefan newydd heb unrhyw gost i'r Awdurdod Tân ac Achub, gan fod arian wedi dod ar ffurf grant gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODOM) i wella mynediad y cyhoedd at wefannau.

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Bod yr aelodau'n nodi'r adroddiad uchod wrth wylio dangosiad byw o wefan newydd y Gwasanaeth.